

Cyfarfod Meeting	Partneriaeth Gwledig Môn/Arloesi Môn		
Lle Venue	Neuadd y Dref Llangefni		
Dyddiad Date	26/04/2018	Amser Time	1.00 pm

Present:

Cynrychiolaeth o'r Sector Menter:		
Mari Faulkener		
Bryn Jones		
Nigel Peacock		
Cynrychiolaeth o'r Sector Gwirfoddol/Cymuned		
Jean Baker		Ymddiriedolaeth Treftadaeth Ddiwydiannol Porthaethwy
Neville Evans	(NE)	Bryngwran Cymunedol
Edna Jones	(EJ)	Ffermwyr Ifanc
Public Sector Representatives		
Martin Jardine	(MJ)	Grŵp Llandrillo Menai (Cadeirydd)
Molly Lovatt	(ML)	CNC
Dewi Lloyd	(DL)	Datblygu Economaidd CSYM
Staff Menter Môn		
Dafydd Gruffydd	(DG)	
Jane Davies	(JaD)	
Neil Johnstone	(NJ)	
Jackie Lewis	(JL)	
Staff Cyngor Sir Ynys Môn		
Eifion Jones	(ELJ)	
Eraill yn mynychu		
Eira Parry		Cyfieithydd
Peter Davies		Gwasanaethau Merlin
Andrew Rawling		Môn Digidol

Point	Details	Action
1	Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



2	<p>Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth yr aelodau canlynol.</p> <p>Dr Dylan Evans Mark Gahn Dewi Jones Sue Roberts Eryl Williams Heidi Williams Buddug Turner Bethan Fraser -Williams</p>	
3	<p>Datgan diddordeb Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb</p>	
4	<p>Cofnodion cyfarfod 31/1/18</p> <p>Roedd cymeradwyaeth y gwariant ar gyfer y prosiect Cerbyd Trydan wedi'i hepgor o'r cofnodion. Gyda'r cywiriad hwn, cawsant eu derbyn fel rhai cywir.</p>	
5	<p>Materion yn codi.</p> <p>Ymgwymerwyd â'r camau gweithredu yn y cofnodion - cafwyd ymateb positif i ffurflen ddiwygio'r prosiect am £9,000 yn ychwanegol tuag at brynu polytwunnel ar gyfer grŵp y Tyfwyr. Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.</p>	
6	<p>Adroddiad Cynnydd</p> <p>Amlygodd ELJ yn fyr rhai o'r pwyntiau allweddol o'r adroddiad cynnydd. Cymerwyd mantais o'r cyfle blynyddol i ailbroffilio'r gwariant rhagamcanol. Mae prosiectau cydweithredu bellach yn cael eu dangos ar wahân. Roedd y gwariant dros y chwarter diwethaf yn uwch na'r proffil newydd, gyda gwariant cydweithredol yn debyg iawn. Esboniodd DG fod y proffil presennol yn rhedeg hyd at 2020 ond gobeithir y gellir ymestyn LEADER, o bosibl hyd at 2023, trwy ddefnyddio amser staff ar brosiectau eraill. Roedd arwyddion y gallai cyllid pontio fod ar gael i bontio rhwng hyn ac unrhyw gyllid dilynol. Roedd yn bwysig nad oedd momentwm yn cael ei golli a phwysleiswyd y byddai'r gweithgareddau yn ategu LEADER ac na fyddent yn arwain at ddyblygu.</p> <p>Dywedodd DG ei fod yn bwriadu cynnal adolygiad o'r Strategaeth Datblygu Lleol oherwydd bu peth amser ers iddi gael ei llunio, a gallai blaenoriaethau fod wedi newid. Byddai'r GGLI yn rhan o'r broses.</p> <p>Mae gofyniad i ymgymryd â gwerthusiad tymor canolig a therfynol o'r rhaglen. Rhoddwyd cais tendr ar GwerthuiGymru. Mae'r fanyleb yn cynnwys ymgynghori</p>	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
Isle of Anglesey
Charitable Trust



	ag aelodau'r GGLI a'r rhai sydd wedi bod yn rhan o brosiectau.	
6	<p>Cronfa Cymunedau Creadigol</p> <p>Esboniodd DG fod y ffurflenni a'r canllawiau yn cael eu paratoi. Byddai is-grŵp yn cael ei alw i edrych ar geisiadau ac argymell a ddylid eu cymeradwyo ai peidio. Byddai copïau wedyn yn cael eu dosbarthu i aelodau'r GGLI gyda chais i'w cymeradwyo. Bydd hyn yn galluogi cymeradwyo prosiectau yn gyflymach na chynnull y bartneriaeth lawn. Rhoddodd JL enghreifftiau o brosiectau posibl a oedd wedi mynegi ddi-ddordeb.</p>	
7	<p>Ymweliad á'r Ffindir</p> <p>Bydd tri aelod o'r GGLI a dau swyddog yn ymweld â phrosiectau Leader a chynhadledd yn y Ffindir ym mis Mehefin. Dangoswyd ffilm fer am y digwyddiad.</p>	
8	<p>Adborth Prosiect</p> <p>Sini Môn</p> <p>Roedd yr offer Sini Môn wedi'i osod yn ei le yn y neuadd yn ystod y bore ac fe'i cadwyd er mwyn i aelodau'r GGLI weld cyflwyniadau yn ei defnyddio.</p> <p>Dangosodd Peter Davies ac Andrew Rawling yr offer. Roeddent wedi derbyn deg archeb o arddangosiad y bore. Roedd yr aelodau wedi eu plesio'n fawr gydag argraff "wow" y sgrin fawr ac ansawdd y llun a'r sain. Bydd y prosiect yn cael ei fonitro a'i adolygu'n gyson gyda golwg ar ddatblygu model busnes i'w gyflwyno ymhellach.</p> <p>Lansio Telimon</p> <p>Dangosodd JL hysbyslun a oedd yn hyrwyddo Teli Môn, a fyddai'n cael ei lansio yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Bu rhywfaint o sylw eisoes ar S4C. Byddai Teli Môn ei hun yn cael ei lansio ar 12/05. Roedd yr AHNE wedi cefnogi'r prosiect ac roedd Paul Edwards, Rheolwr y Cyfryngau Creadigol yn Grŵp Llandrillo Menai wedi cynnig gwasanaethau myfyrwyr Coleg Menai fel rhan o'u cwrs. Byddai gan y sianel ei fasgot ei hun - cymeriad cartŵn o'r enw Monyn.</p>	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
Isle of Anglesey
Charitable Trust



	<p>Gwelodd EJ gyfle i glybiau Ffermwyr Ifanc gymryd rhan ac awgrymodd y byddai Rali a'r Eisteddfod Ffl yn gwneud pynciau posibl.</p> <p>Ceginau Agored</p> <p>Esboniodd JD fod anawsterau wedi bod gyda rhai o'r cyfranogwyr yn methu â chyflawni eu dyddiadau. Bu diddordeb yn uchel, gyda'r rhai yr ymgwymerwyd â hwy hyd yn hyn wedi eu tanysgrifio'n llawn. Dangoswyd ffilm fer o un o'r digwyddiadau a'r cwmni sy'n ei gynnal.</p> <p>Gwledd Symudol</p> <p>Adroddodd JD fod 104 o gynhyrchwyr/aelodau ynghlwm â'r prosiect gyda thua 30 o Ynys Môn, 30 o Gonwy a 40 o Wynedd. Roedd pecyn cymorth yn cael ei baratoi ac roedd symudiad ar gyfer gŵyl werdd trwy beidio â chael plastig un defnydd.</p>	
9	<p>Cynigion Prosiect</p> <p>a) Diwygiad i Creu Gofal</p> <p>Eglurodd ELJ, er bod y prosiect i fod i ddod i ben ddechrau mis Mai, ei fod wedi bod yn ennill momentwm yn araf, a nawr roedd nifer dda yn mynychu. Awgrymodd adborth y byddai ymestyn am 6 mis arall yn gwella'r prosiect ac yn caniatáu diwrnodau ychwanegol a chyflwyno cludiant (dau beth a nodwyd fel rhwystrau). Byddai hyn yn cynyddu'r gost o'r £5,000 gwreiddiol i £8,864</p> <p>Cymeradwywyd y newid i'r prosiect yn unfrydol (£8,864)</p> <p>b) Sbwriel</p> <p>Eglurodd DG, yn sgil anawsterau cyhoeddus ynghylch yr arferion a ddefnyddiwyd gan Kingdom mewn perthynas â sbwriel a pharcio, a oedd wedi arwain at derfynu contractau, gofynnwyd i Menter Môn p'un a oedd ganddo ddiddordeb mewn ymgymryd â'r rôl ond wedi edrych ar y ffigyrau, penderfynwyd peidio â derbyn y cynnig. Fodd bynnag, roedd ganddo ddiddordeb mewn edrych ar ffyrdd eraill o ymdrin â'r broblem. Roedd bodolaeth grwpiau e.e. Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth a Chadw Cymru yn Daclus yn awgrymu bod llawer o gefnogaeth, a bod Menter Môn yn curo ar ddrws agored.</p> <p>Cefnogodd y cyfarfod edrych ar ffyrdd eraill o ymdrin â sbwriel.</p>	
8	<p>Unrhyw fater arall</p> <p>Dywedodd MF yng nghyfarfod o'r ATA, nodwyd nad oedd TIC, a oedd yn achosi</p>	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
Isle of Anglesey
Charitable Trust



	<p>pryder, yn ogystal â diffyg arwyddion. Roeddent yn barod i wrando ar awgrymiadau am syniadau am brosiectau, o bosib apps, a chyfeiriwyd at waith sy'n cael ei wneud yn Ynys Manaw.</p> <p>Dywedodd JL mai ychydig o bobl a oedd wedi manteisio ac wedi ymgysylltu â phrosiect Pasbort Ynys Môn, a'i bod yn edrych ar sut y gellid ei addasu i gynyddu diddordeb.</p> <p>Nodwyd bod y newid amser yn welliant, gan ganiatáu trafodaeth llai brysiog o brosiectau a syniadau. Gofynnwyd ai dydd lau oedd y diwrnod mwyaf priodol gan fod probelomau parcio oherwydd y farchnad.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu hamser. Diolchodd hefyd i Peter Davies ac Andrew Rawling am eu cymorth a'u harddangosiad o Sini Môn.</p>	<p>Cyfarfodydd prynhawn i'w trefnu gan osgoi dydd lau os yn bosibl</p>
9	<p>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</p> <p>12 Gorffennaf 2018 @ 12:30 pm</p>	
	<p>Cau</p>	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*

